# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd**

**Cartref Preswyl Bryn Illtyd**
**Heol y Mynydd Pen-bre**
**Porth Tywyn**
**SA16 0AJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 39 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Tachwedd 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd yn darparu gofal o ansawdd da, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan staff gofal sy'n llawn cymhelliant, ac y mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ac maent yn cael dewis sut i dreulio eu hamser. Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i fod mor annibynnol â phosibl. Caiff y Gymraeg a diwylliant Cymru eu hyrwyddo a'u hannog yn y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, ac mae cynlluniau ar waith i adnewyddu'r gwasanaeth ymhellach. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r ardaloedd sydd ar gael i gefnogi llesiant y bobl ac i ddiwallu anghenion a nodwyd.

Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli a goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgynghori â'r bobl ynglŷn â'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau Adolygiad manwl o Ansawdd y Gofal sy'n nodi'r gwelliannau i'w gwneud yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Roedd y bobl a'u cynrychiolwyr yn canmol y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"I absolutely love it here. They can't do enough for you. It is my home and I wouldn't be anywhere else."*

Mae gan y bobl yn y gwasanaeth gymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gall y bobl ddewis ble a sut i dreulio eu hamser, gan ddewis o blith yr amrywiaeth o ardaloedd cymunedol, ystafelloedd bwyta, ardaloedd awyr agored neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Caiff y bobl gymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp gan gydgysylltydd gweithgareddau. Gwelsom sesiwn ffitrwydd cadair freichiau yn cael ei chynnal a'r piano yn y lolfa yn cael ei ddefnyddio gan unigolyn i ddiddanu eraill.  Gwelsom enghreifftiau o'r bobl yn cael cymorth i barhau'n annibynnol lle y bo'n bosibl, yn y ffyrdd sy'n bwysig iddynt. Gwelsom fod y bobl yn gallu paratoi byrbrydau a diodydd poeth yn eu hystafelloedd eu hunain a'u bod yn gallu mynd allan i'r gymuned ac i'r trefi cyfagos yn annibynnol. Mae'r bobl yn cael eu hannog i bersonoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau, eu chwaeth a'u hobïau. Roedd y bobl yn canmol y fwydlen sydd ar gael yn y gwasanaeth yn fawr, "*Wel dwi'n joio fe, wir."*

Mae'r bobl yn byw gydag urddas a pharch ac maent yn cael cymorth priodol, caredig a gofalgar gan staff gofal cyson y maent yn eu hadnabod. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn gweithio ochr yn ochr â nhw mewn ffyrdd cadarnhaol. Gwelsom sawl sgwrs llawn hiwmor drwy gydol y dydd ac mae'r staff gofal yn gwerthfawrogi natur unigryw y bobl yn y gwasanaeth. Gwelsom gath y cartref, 'Mischief', yn rhoi cysur a chlust i wrando i'r bobl yn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg, ag aelodau o staff gofal, aelodau o'r tîm rheoli a phreswylwyr eraill sy'n siarad Cymraeg. Gwelsom y gwasanaeth yn hwyluso enghreiffiau o ryngweithio achlysurol pwrpasol ac ystyriol yn Gymraeg lle nad yw'r staff yn siarad Cymraeg. Caiff arwyddion dwyieithog eu defnyddio ym mhob rhan o'r gwasanaeth, sy'n cyfeirio at draethau ac ardaloedd o ddiddordeb lleol. Caiff digwyddiadau diwylliannol Cymreig eu dathlu yn y gwasanaeth. Mae rhywfaint o'r ddogfennaeth hefyd ar gael yn Gymraeg.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda gan dîm o staff gofal sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed gan staff proffesiynol sy'n gwybod sut i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn, ac maent yn hyderus y bydd y rheolwr yn ymdrin ag unrhyw gwynion.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn sensitif i anghenion unigol y bobl a'u heriau cyfathrebu. Caiff y staff eu hannog a'u cefnogi i ddod i adnabod y bobl yn dda, ac i ddeall eu hanghenion a'u dewisiadau. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar, llawn anogaeth rhwng y bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff. Gwelsom fod y bobl yn fodlon ac yn cael cysur wrth ryngweithio â'r staff. Dywedodd un person sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym ei fod yn hoffi byw yng nghartref Bryn Illtyd a bod pob un o'r staff yn hyfryd; *“Dwi’n lico fod ‘ma. Mae e’n lyfli ‘ma. Mae staff yn hyfryd. Maen nhw i gyd yn.”*

Mae'r broses ar gyfer derbyn pobl newydd i mewn i'r gwasanaeth wedi ei chynllunio'n dda. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y staff gofal er mwyn diwallu anghenion y bobl. Caiff y cynlluniau personol cychwynnol eu hysgrifennu ar y cyd â'r bobl gyda chymorth gan y gwasanaeth lle y bo'n bosibl, a'u cynrychiolwyr. Caiff y cynlluniau eu hadolygu mewn modd amserol a'u diweddaru pan gaiff newidiadau eu nodi.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sy'n ymrwymedig, yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth unigol i'r bobl fel y nodir yn eu cynlluniau personol ac maent yn hybu annibyniaeth barhaus cymaint â phosibl. Cawsom wybod nad yw'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth, gan werthfawrogi staff cyfarwydd a chyson er mwyn meithrin cydberthnasau â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gan y gwasanaeth rai aelodau o staff gofal sydd wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Mae'r staff gofal yn wybodus am y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn ymdrin â nhw mewn ffordd empathetig ac amyneddgar. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym, “*If people are happy and smiling and enjoying their time here, I am doing something right. That is the most important thing to me.”*

Caiff iechyd corfforol a llesiant y bobl eu hybu. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y bobl yn cael cymorth i gysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r gwasanaeth yn deall cyflyrau iechyd y bobl, y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn gallu adnabod newidiadau o ran golwg ac ymddygiad arferol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn brydlon. Caiff y bobl eu hannog i fod mor iach â phosibl.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut i roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â diogelu.

Mae trefniadau effeithiol ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel a bod y staff gofal yn cwblhau cofnodion meddyginiaeth yn gywir. Caiff archwiliadau meddyginiaethau eu cwblhau'n rheolaidd, ac mae'r cyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi'n gywir a'u storio'n ddiogel.

Mae'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn dda. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff gofal pan fo'i angen.  Gwelsom enghreifftiau o'r staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol drwy gydol yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn groesawgar, yn gyfforddus, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r ardaloedd cymunedol ac ardaloedd bwyta ar wahân ar gael i'r bobl yn y gwasanaeth. Gall y bobl ddewis ble yr hoffent dreulio eu hamser, er enghraifft yn y brif lolfa i sgwrsio a chymryd rhan mewn gweithgareddau yng nghwmni preswylwyr eraill, yn y lolfa dawel i wylio'r teledu, yn eu hystafelloedd eu hunain neu yn yr heulfan i gael amrywiaeth. Mae'r ardd yn rhoi cyfle i'r preswylwyr fwynhau ardaloedd awyr agored. O ganlyniad, mae digon o le yn y gwasanaeth i'r bobl gymdeithasu ac iddynt allu dewis preifatrwydd y tu allan i'w hystafelloedd eu hunain. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ymwelwyr a gall y bobl gyfarfod ag aelodau o'u teulu yn y gwasanaeth pryd bynnag y byddant am wneud hynny. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n ystyried eu hanghenion o ran y Gymraeg. Darperir arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg o amgylch y safle. Gellir addurno'r ystafelloedd gwely yn unol â dewisiadau personol a diddordebau'r bobl. Mae gan rai unigolion luniau o anwyliaid a hobïau wedi'u harddangos, gan gynnwys ystafelloedd â thema. Mae cath a chaneri yn byw yn y cartref hefyd. Mae hynny o fudd i'r bobl gan ei fod yn gwella awyrgylch cartrefol y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel i'r bobl. Mae trefniadau priodol ar waith i sicrhau y caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff gwiriadau monitro eu cwblhau o amgylch y cartref i nodi materion yn gyflym ac ymdrin â nhw. Mae gan y gwasanaeth weithiwr cynnal a chadw ac mae trefniadau ar waith ganddo i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw parhaus yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion y bobl sy'n byw gyda dementia, i'w helpu i symud o amgylch rhannau o'r gwasanaeth. Cawsom wybod hefyd am gynlluniau adnewyddu pellach ar gyfer y gwasanaeth. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i ymwelwyr ganu cloch y drws er mwyn cael mynediad i'r gwasanaeth. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi sgôr o bump i'r gwasanaeth, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda iawn ar hyn o bryd. Caiff dewis o brydau eu paratoi'n ffres yn y gwasanaeth, yn seiliedig ar ddewisiadau'r bobl.

Caiff y larymau tân eu profi'n rheolaidd yn y cartref ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Cynhelir ymarferion tân a gwiriadau larymau tân mor aml ag sy'n ofynnol. Mae gan y bobl sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng er mwyn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i helpu'r bobl i adael yn ddiogel pe bai argyfwng.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Gwelsom orsafoedd gyda chyfarpar diogelu personol (PPE) a hylif diheintio dwylo o amgylch y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n nodi'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael i'r bobl a natur y cymorth hwnnw. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd buddiol ar waith yn y gwasanaeth. Mae trefniadau goruchwylio effeithiol yn sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd da, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion yr unigolion a hyrwyddo eu llesiant. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn treulio amser yn siarad â'r bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cael cymorth agos gan Reolwr Gweithrediadau. Mae'r staff gofal yn dangos ymrwymiad a thosturi tuag at yr unigolion y maent yn eu cefnogi, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y tîm rheoli. Mae'r adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal yn nodi meysydd i'w gwella ac yn defnyddio profiadau'r bobl i wella'r gofal a'r cymorth a ddarperir.

Mae'r rheolwr sydd wedi'i gyflogi yn y gwasanaeth wedi gweithio yno ers sawl blwyddyn ac mae'n brofiadol iawn. Mae'r rheolwr yn meddu ar gymwysterau addas i ymgymryd â'r rôl ac mae wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n adnabod y bobl yn dda ac yn dangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae'n sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n effeithiol o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff gofal wrthym fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt a'u bod bob amser ar gael i helpu neu i roi arweiniad pan fo angen. Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, *"I speak to [management] if there are any issues and they get on to it".*

Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom fod nifer digonol o staff gofal ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl. Mae trefniadau da ar waith yn y gwasanaeth i recriwtio staff yn ddiogel. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ac yn gyfredol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ffeiliau personél y staff yn cynnwys y wybodaeth ofynnol yn unol â'r Rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

Mae aelodau newydd o staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu sy'n cynnwys hyfforddiant a shifftiau cysgodi i sicrhau y gallant gyflawni tasgau gofal penodol. Mae cofnodion hyfforddiant y staff gofal yn nodi bod y staff gofal yn cael cyfleoedd hyfforddiant, ac ar cyfan, mae'r staff gofal wedi cwblhau lefel briodol o hyfforddiant.

Darperir cymorth i'r staff gofal drwy sesiynau goruchwylio, ond gwelsom fod polisi drws agored ar waith lle caiff y staff gofal eu hannog i drafod anghenion y bobl yn ddi-oed, gan sicrhau y caiff gofal o ansawdd da ei ddarparu'n barhaus. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym, *"I get supervision but I talk to [the manager] if there are any issues."*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/07/2024